

Papur Pawb

Pris: 50c

Chwefror 2015 Rhif 406



Dathlu'r Deugain - tud 7

tud 3
Pobl a Phethe

tud 4,5,8,9
Ysgolion

tud 11
Y Gair Olaf

tud 12
Chwaraeon

Ysgol Llangynfelyn dan fygythiad

Ym mis Medi 2014 comisiynwyd Alun Morgan, cyn arolygydd gydag ESTYN gan Gyngor Sir Ceredigion i greu adroddiad annibynnol ar y ddarpariaeth addysgol yn ardal Aberystwyth. Yn yr adroddiad hwnnw wrth drafod capasiti ysgolion mae'n cyfeirio at 'ystyried cau ysgolion lle mae'r niferoedd yn debygol o fod dan 30 erbyn 2016'. Wrth ymhelaethu ar hyn mae'n dweud:



'Dylai hyn roi ystyriaeth i'r dewisiadau amgen sydd ar gael, a'r pellter teithio i'r disgyblion petai'r ysgolion yn cau. O ystyried hyn, byddai'n rhesymegol dechrau trwy leihau'r ffederasiwn tair-ysgol 'meddal' presennol, sef Ysgol Tal-y-bont, Ysgol Craig yr Wylfa ac Ysgol Llangynfelyn i fod yn un dwy ysgol, trwy gau Ysgol Llangynfelyn. Mae'r niferoedd presennol yn Ysgol Llangynfelyn yn is na 30 ac mae'r rhagamcanion pum mlynedd yn dangos mymryn o ostyngiad pellach. Mae'r pellter o'r ysgol hon i Ysgol Tal-y-bont yn 1.4 milltir yn unig. Yn oystal, mae yna ddarpariaeth cyn ysgol eisoes ar gael ar safle Ysgol Tal-y-bont ar gyfer y plant fydd yn symud ymlaen i un ai Ysgol Tal-y-bont neu Ysgol Llangynfelyn.'

Mewn cyfarfod o Gabinet y Cyngor Sir ar yr 20 Ionawr cymeradwywyd cyfres o argymhellion o'r adroddiad a oedd yn cynnwys un yn galw yn benodol am gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Cwmpadarn ac Ysgol Gynradd Llangynfelyn. Yn sgil hyn, mae'r Cabinet wedi penodi panel bychan o Gynghorwyr i ymchwilio ymhellach i'r argymhelliad uchod ac i adolygu'r sefyllfa gyfredol yn Ysgol Llangynfelyn. Fel y mae Papur Pawb yn mynd i'r wasg deallwn y bydd y Panel Adolygu yma'n cyfarfod ar 10 Chwefror ac yn dilyn hynny bydd y Cabinet yn penderfynu beth fydd y cam nesaf, a hynny'n

ddibynnol ar yr argymhellion a gyflwynir gan y panel. Pe byddai'r cabinet yn cymeradwyo bwrw ymlaen gydag ymgynghoriad ffurfiol mae'n debyg y byddai cyfnod ymgynghori ffurfiol yn digwydd yn ystod diwedd mis Ebrill a mis Mai.

Rhaid pwysleisio nad oes unrhyw fath o benderfyniad wedi ei wneud hyd yma. Mae'r staff, y rhieni a'r llywodraethwyr wedi cael cyfle i gyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor Sir sef Eifion Evans, y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau a Barry Rees, y Pennaeth Gwasanaethau Dysgu.

Wrth reswm mae rhieni'r ysgol yn pryderu'n fawr ac wedi bod yn cyfarfod i drafod sut y gellir mynd ati i gryfhau achos yr ysgol. Dywedodd Tammi Dallaston, Cadeirydd y Llywodraethwyr:

'Dwi mor falch fod fy nbri plentyn yn ddwyieithog o gofio ein bod wedi symud yma llai na chwe mlynedd yn ôl. Mae'n eironig taw un o fy rhesymau dros symud dros Glawdd Offa oedd system addysg well o gymharu â Lloegr. Fe fynychais i ysgol fach, ac rwy'n credu ei fod wedi rhoi seiliau cadarn i mi ar gyfer y dyfodol.'

Dyma oedd gan Tom Cosson i'w ddweud, fel rhiant sydd a mab yn yr ysgol ar hyn o bryd:

'Roedd hi'n siom anferthol i rieni a staff Ysgol Llangynfelyn glywed am yr argymhelliad i gau ein hysgol wych. Teimlwn bod yr Awdurdod a'r Cyngor wedi dangos diffyg parch tuag atom drwy fetu ein hysbysu'n briodol a gadael i ni glywed y newyddion ar y radio. Un paragraff pitw oedd yn yr adroddiad am ein hysgol ni ac roedd disgwyl i'r Cabinet wneud penderfyniad mor bwysig ar sail hynny, ac awdur yr adroddiad ddim hyd yn oed wedi ymweld â'r ysgol! Teimlwn yn gryf y dylai'r Awdurdod edrych ar opsiynau eraill. Mae unrhyw Awdurdod cyfrifol yn sicrhau ei fod yn edrych ar rôl ehangach y mae'r ysgol yn ei chwarae, yn y gymuned, yn ieithyddol, ac yn amgylcheddol. Mae'r ysgol yn hanfodol o ran cadw'r iaith yn fyw yn ein cymuned o gofio mai yn yr ysgol y mae mwyafrif y plant yn dysgu'r Gymraeg. Rydym wedi llwyddo i greu siop gymunedol lwyddiannus ble mae'r Gymraeg yn ffynnu a'r ysgol yn ymweld â hi'n gyson fel rhan o waith yr ysgol. Bydd cau'r ysgol yn tansilio hyn oll ac yn effeithio ar y gymuned gyfan. Does dim dwywaith ein bod yn mynd i frwydro i'r pen yn erbyn yr argymhelliad hun er mwyn cadw'n hysgol werthfawr ar agor.'

Megis dechrau mae'r broses ar hyn o bryd wrth gwrs ac mae yna fisoedd lawer o drafodaethau a phenderfyniadau anodd i ddo. Gallwn ond gobeithio y bydd y cyfan yn cael ei weithredu yn deg a chytbwys ar addysg arbennig a ddarperir yn Ysgol Llangynfelyn ar hyn o bryd yn cael ystyriaeth lawn. Mae hynny'n allweddol bwysig.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com	(01970) 832560
Tynnu lluniau:	Cysyllter â golygyddion y mis	
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont	832592 832438
Maes-y-deri:	Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont	832483
Parsel Henlllys:	Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont	832498
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	832429 (01654) 781260
Eglwysfach/Ffwrnais:	Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	(01654) 781324
Cadeirydd:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont	832760
Is-gadeirydd:	Gerwyn Jones, Dôl Pistyll, Tal-y-bont	832203
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgriaffau:	Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones	
Dosbarthwyr:	John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Llythyron

Cynhadledd Syr John Rhŷs

Annwyl Olygyddion, Carwn dynnu sylw eich darllenwyr at gynhadledd a gynhelir yn yr Hen Goleg, Aberystwyth, ar ddydd Sadwrn 21 Chwefror, rhwng 10.00 y bore a 4.00 y pwnaw, i gofio canmlwyddiant marw Syr John Rhŷs (1840-1915). Brodor o Aberceiro, Ponterwyd, oedd John Rhŷs, a ddaeth yn Athro Celteg ym Mhrifysgol Rhydychen ac yn Brifathro Coleg Iesu, Rhydychen. Yr oedd yn un o ysgolheigion Celtaidd mwyaf blaenllaw ei gyfnod. Bydd y gynhadledd o ddiddordeb i bawb sydd am ddsygu mwy am waith, diddordebau, a chyfraniad yr ysgolhaig hwn y mae ei bapurau personol i'w cael yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Bydd cyflwyniadau i'w archif gan staff y Llyfrgell a bydd Lona Mason yn trafod y gwahanol bortreadau a wnaed ohono yn ystod ei oes ac wedi hynny. Bydd yr artist cyfoes lleol, Mary Lloyd Jones, hefyd yn trafod y dylanwad a gafodd gwaith Syr John a rai o'i gweithiau celf hi.

Ar ôl cinio ceir tair darlith yn edrych ar dair agwedd wahanol ar ei waith, sef ei waith fel ieithydd, cylch ei ohebwyr, a'i gyfraniad fel un o sylfaenwyr Comisiwn Henebion Cymru. Roedd ganddo ddiddordebau eang iawn yn cwmpasu ieitheg, archaeoleg, llên gwerin, tafodieitheg, henebion a hynafiaethau.

Cost cofrestru fydd £10 (£5.00 i fyfyrwyr), a gellir cofrestru eich diddordeb a gweld y rhaglen lawn drwy fynd i wefan Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth: www.aber.ac.uk/cy/cymraeg/cynhadleddsyjohnrhys/, neu drwy ffonio (01970) 622137.

Hefyd, ar nos Wener, 20 Chwefror am 7.30, cynhelir darlith gyhoeddus Gymraeg gan yr hanesydd Russell Davies, a fydd yn trafod Syr John Rhŷs a'i oes: 'Y byd wedi dadrebio?': Syr John Rhŷs a'i amserau'.

Cynhelir y ddarlith yn yr Hen Neuadd Arholiadau, Yr Hen Goleg, ac mae'r mynediad am ddim.

Diolch yn fawr, Bledwyn O. Huws, Prifysgol Aberystwyth, ar ran pwyllgor trefnu'r gynhadledd.

Tal-y-fan
Meisgyn

Annwyl ffrindiau

Gair bach o ddiolch am y dymuniadau da, negeseuon, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniais yn dilyn y lawdriniaeth a gefais yn ddiweddar yn Ysbyty Morgannwg, Llantrisant. Diolch yn arbennig i Ferched y Wawr am eu fideo, ac am gyfarchion y Clwb Nos Wener, yn ogystal â'r llu o unigolion sydd wedi cysylltu.

Bellach, rwy'n cryfhau ac yn gwella bob dydd, ac yn cael gofal arbennig gan fy 'nyrs' personol ar teulu.

Diolch eto, a chofion cynnes atoch i gyd, Eleri Huws

Dyddiadur

Chwefror

- 13 Clwb Nos Wener** Sian James, Llew Du, Tal-y-bont, 8.00
- 14 Eglwys Dewi Sant** Neuadd Goffa (gwaelod y neuadd) Bore Goffi 10.30. Croeso i bawb
- 15 Bethel** 10.00 Gweinidog (C) **Nasareth Rehoboth** 10.00 Beti Griffiths **Eglwys Dewi Sant** 11.00 Cymun Bendigaid
- 16 Merched y Wawr** Haematoleg, Eirian Gravelle Neuadd Goffa 7.30
- 18 Eglwys Dewi Sant** Cwrdd Cymunedol Llangorwen 10.00, a Llanfihangel Genau'r Glyn 6.00
- 19 Sefydliad y Merched** 'Gwyliau Eildalaidd' Dr Stephen Evans, Neuadd Goffa
- 22 Bethel** 10.00 Gweinidog **Rehoboth** 10.00 Richard Lewis **Eglwys Dewi Sant** 11.00 Cwrdd Teuluol
- 28 Cawl a Chân** gyda Parti Meibion y Mynydd, Neuadd Goffa 6.30

Mawrth

- 1 Bethel** 10.00 Uno yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth (Oedfa Gŵyl Ddewi Menter Gobaith) **Rehoboth** 10.00 Oedfa Menter Gobaith

Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

Cyfarfod Blynyddol
Nos Lun, 2 Mawrth 2015
Neuadd Goffa, Tal-y-bont
am 8 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb



DIGWYDDIADAU MORLAN:

- Joyeux Noel (7.00, nos Fercher, 25 Chwefror):** dangosiad o'r ffilm arbennig hwn a leolir yn ffosydd y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd trafodaeth yn dilyn. Trefnir ar y cyd â Chrynwyr Aberystwyth. Mynediad: £3 (yn cynnwys paned).
- Cinio Cawl (11.00-12.45, dydd Sadwrn, 28 Chwefror):** llenwch eich boliau cyn y Parêd Gŵyl Dewi gyda phowlenaid o gawl cartref blasus - dim ond £3 (yn cynnwys rôl a chaws). Paneidiâu a raffi hefyd ar werth. Elw at Morlan.

Manylion llawn ar wefan Morlan:

www.morlan.org.uk

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2JH
01970-627996; morlan.aber@gmail.com; @CanolfanMorlan

- Eglwys Dewi Sant** 10.00 Cwrdd Cymunedol
Eglwys Sant Mihangel 3.30 Gwasanaeth Gŵyl Ddewi
- 2 Cymdeithas Sioe Tal-y-bont,** Cyfarfod Blynyddol, Neuadd Goffa Tal-y-bont 8.00
 - 3 Sefydliad y Merched** Hanes Teulu, Dathlu Gŵyl Ddewi gyda Nigel Callaghan, Llanfach, Taliesin 7.00
 - 8 Bethel** 5.00 Gweinidog **Nasareth** 11.15 Bugail (C) **Rehoboth** 10.00 Bugail (C) **Eglwys Dewi Sant** 11.00 Cwrdd Gwedd
 - 10 Cwrdd Chwiroydd** **Rehoboth** 'Adloniant ar Lafar ac ar Gân', Glyn a Lona Jones
 - 15 Bethel** 10.00 Trefn Lleol **Nasareth Rehoboth** 10.00 Adrian P. Williams **Eglwys Dewi Sant** 11.00 Oedfa Weddi **Eglwys Sant Mihangel** 3.30 Gwasanaeth Sul y Mamau

Digwyddiadau'r Ystafell Haearn, Eglwys-fach:

Arwerthiant Eitemau Fel-Newydd Dydd Sadwrn 7 Mawrth, 10.30am - 4.30 pm Croeso i bawb. Clwb Darllen ail ddydd Gwener pob mis.

Cwis 21 Mawrth, 7.30:

i archebu bwrdd cysylltwch â Chris 01654 703730 neu Roy 01654 781343.

Ar gyfer archebu yr Ystafell Haearn ffoniwch Alison 01654 781 322.



Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian, Catrin a Carys gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion mis Chwefror fydd Robat ac Enid (robat@yloffa.com). Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 6 Mawrth, a bydd y papur ar werth ar 13 Mawrth.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â John Walton, Bryn Melyn, Tre'r-ddôl, sydd wedi colli ei chwaer a oedd yn byw yng nghanolbarth Lloegr.

Cydymdeimlwn ag Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont ar golli ei chyfnither, Lona Jones, Penrhyn-coch; hefyd â Gwyndaf Evans, Maes-y-deri, Tal-y-bont ar golli ei frawd, Eirwyn Evans.

Cydymdeimlwn hefyd â Steve Taylor, Stryd Pant-y-calch, Tal-y-bont sydd wedi colli ei chwaer.

Yn yr Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Mrs Florence Stubbs, Frongoch Villa, Tre'r-ddôl, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd yn dilyn llawdriniaeth.

Croeso

Estynnwn groeso i'r rhai sydd wedi ymgartrefu mewn un stryd yn Nhref-ddôl yn ddiweddar, sef Mr a Mrs Lulu, Old Halfway; Daniel Jenkins a Rachel Downs, Bronllwyn; Jane Pugh, Glanrhyd, a Mathew Davies a'i bartner, Egryn.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Eifion a Sara Jenkins, Cerrig caranau gynt, ar enedigaeth eu merch fach, Elinor Gwenith a hefyd i Dilwyn ac Eirlys ar ddod yn dad-cu a mam-gu.

Hefyd i Mali ac Arwyn Thomas ar enedigaeth eu mab, Ianto, ac i Harri a Medi James ar ddod yn dad-cu a mam-gu.

Llongyfarchiadau i Rhiannon ac Andy, Tyn Llwyn, Llangynfelyn ar enedigaeth Rufus Emrys ac i Simon a Monica Lloyd-Williams ar ddod yn dad-cu a mam-gu.

Croeso

Croeso i James a Harriet sydd wedi dod i fyw i Llys Elian, Tal-y-bont. Hefyd llongyfarchiadau iddynt ar enedigaeth eu mab bach, Noah, yn fuan wedi iddynt symud i'r pentref.

Pantomeim

Braf oedd gweld pump o blant lleol yn cymryd rhan yn y pantomeim *Snow White and the Seven Dwarfs* yng Nghanolfan y Celfyddydau yn ddiweddar, sef Glain a Miriam Llwyd Davies, Heledd ac Elinor Davies, a Lili Gwen O'Brien.

Pobl a Phethe



Bingo'r Cffl

Alaw Aur a Gareth yn dangos eu doniau wrth alw'r rhifau yn noson bingo y Ffermwyr Ifainc. Dyma gyfle i'r ddau greu busnes newydd o bosib.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Ann Humphreys, Llysteg, Taliesin, ar ddod yn hen fam-gu! Cafodd Marged Lois ei geni i Caryl, wyres Ann a'i gŵr Geraint ar 1 Chwefror. Llongyfarchiadau hefyd i Martin Davis, Is-y-coed, Taliesin, ar ddod yn hen ewythr unwaith eto! Ganwyd Raphael Benjamin i nai Martin, James, a'i wraig Anna yn Llundain, ym mis Ionawr.

Cydymdeimlo

Rydym yn cydymdeimlo â John a Mona Rowlands, Brynhyfryd, Tal-y-bont a Hugh a Mair Rowlands, Erglodd, Taliesin ar golli brawd yng nghyfraith yn ddiweddar sef E. J. O. Evans, Llanafan (Ieu Cwmcae gynt).

Trist gennym glywed am brofedigaeth Evan a Betty Jenkins, Pengwern, Tal-y-bont ar golli chwaer yng nghyfraith sef Kitty Jenkins, Pwllpridd, Lledrod.

Dathlu'r Deunaw

Llongyfarchiadau mawr i Sara Jenkins, Tyngraig, Tal-y-bont fu'n dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw ar 8 Chwefror. Pob dymuniad da i ti.

Tristwch

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth dau o hen drigolion Tre Taliesin ym mis Ionawr eleni. Bu farw Katie Pugh, Roman House gynt, yn 95 oed; symudodd Katie i fyw i Dreffraeth tua 25 mlynedd yn ôl. Hefyd, Jackie Middleton, Stryd Isa gynt, oedd wedi symud i Aberystwyth rai blynedd oedd yn ôl. Rydym yn cydymdeimlo'n fawr â'i wraig Mary, ei ddau fab a gweddill y teulu.

Siop Cynfelyn

Croesawyd goruchwylydd newydd i Siop Cynfelyn yn ystod mis Ionawr. Mae Donna Jones yn byw gyda'i theulu yn Salem, ger Penrhyn-coch. Bu'n cynnig cwtsh am ddim i bob cwsmer ar ddiwrnod Santes Dwynwen! Yr oedd Donna am ddod i 'nabod pawb – a pha ffordd well na gyda chwtsh?

Newid Aelwyd

Dymuniadau gorau i Mike, Sue, George a Florrie wrth iddynt adael Bont-goch am eu cartref newydd ym Mrynmelyn, Comins-coch. A chroeso cynnes yn ôl i'r pentref i Mr Emyr Breese sydd wedi ymgartrefu yn Erw-las.

Swydd Newydd

Dymuniadau gorau i Siôn Pennant, Penygro, Bont-goch ar ei benodiad i swydd dadansoddydd systemau cyfrifiadurol ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Eglwys St. Pedr, Elerch

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'n ficer, Y Parchg Andrew Loat ar ei ddywediad gyda'r Parchg Heather Evans, Capel Bangor.

Marwolaeth

Syfrdanwyd aelodau Eglwys Elerch, Bontgoch o glywed am farwolaeth sydyn iawn Mrs Lona Jones, Penrhyn-coch ar 4 Ionawr 2015. Arferai Lona ddod atom fel darlennydd lleug i gynnal gwasanaethau yn lled rheolaidd, ac roedd ganddi neges gadarn a phwrpasol i'w chyflwyno bob tro. Estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf i'w theulu yn eu colled.

Priodas Aur

Llongyfarchiadau mawr i Emyr a Lisa Davies, Llety Ifan Hen, Bont-goch, ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Rhydian Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont ar ei lwyddiant diweddar. Mae bellach yn of cofrestredig ar ôl derbyn y Diploma WCF ac fe'i anrhydeddwyd mewn seremoni grand yn Llundain ddechrau'r flwyddyn. Pob dymuniad da i ti Rhydian gyda'r fusnes pedoli newydd a gellir cysylltu ag ef ar 07709851213 neu ar evans.rhydian@yahoo.com. Gwellhad buan i ti hefyd yn dilyn y llawdriniaeth gefaist yn ddiweddar yn Ysbyty Bronglais.

Pen-blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ddathlu pen-blwydd arbennig: Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont; a hefyd Cyril Baker, Leri View, Tal-y-bont.





Priodas

Llongyfarchiadau i Sarah Louise Deans a Robert Oliver South, 1 North Road, Tre'r-ddôl, a briodwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 29 Tachwedd 2014. Y gwas priodas oedd Shaun Pugh o Lanrhystud, ei ffrind yn Ysgol Penweddig. Y morynion oedd Kelly Milverton, Kat Clement, Eli Wills, a Caoilffionn Trehy. Cynhaliwyd y wledd briodas yn y Wildfowler, Tre'r-ddôl, a hoffent ddiolch am y bwyd bendigedig a'r gwasanaeth da a gawsant yno.



Yr aelodau yn mwynhau datblu'r flwyddyn newydd yn y Wildfowler. Cawsom bryd o fwyd blasus a chwmmiäeth hyffryd i roi dechrau da i flwyddyn y Canmlwyddiant.

Sefydliad y Merched Taliesin

Ar nos Fawrth 6 Ionawr, croesawodd y Llywydd Beti Wyn bawb i gyfarfod cyntaf y flwyddyn. Mae eleni'n flwyddyn bwysig iawn yn hanes y Mudiad yn Genedlaethol sy'n datlu ei Ganmlwyddiant, gyda nifer o ddatliadau ychwanegol wedi eu trefnu yn ystod y flwyddyn. Bu Jo Davies, ein gwraig wadd yn arwain y drafodaeth ar y penderfyniadau fydd o dan ystyriaeth gan y Mudiad i fynd ymlaen i'r Cyngor Cenedlaethol yn Neuadd Albert yn Llundain ym mis Mehefin. Mwynhawyd paned ar ddiwedd y cyfarfod a chyfle i sgwrsio, a gwnaed trefniadau ar gyfer ein cinio i ddatlu'r Flwyddyn Newydd yn y Wildfowler ar y 9 Ionawr.



Ymweliad Dosbarth Cyfnod Sylfaen Ysgol Tal-y-bont â'r Anifeilfa yn Borth

Ysgol Tal-y-Bont



Lles Disgyblion



Gala Nofio



Gwersyll yr Urdd, Llangrannog



Ymweliad â Fferm Cerrig Caranau



Ysgol Tal-y-Bont

Lles Disgyblion

Mae lles y plant yn parhau i gael sylw mawr gennym yn yr ysgol. Dros yr wythnosau diwethaf trefnwyd dau ymweliad gan yr heddlu i drafod rhai o'r peryglon sy'n effiethio ar blant y dyddiau hyn. Yn gyntaf daeth Pc Alun Jones atom i drafod pwysigrwydd defnyddio'r we yn gywir ac yna daeth Pc David Goffin atom i'n hatgoffa am gadw draw o ddiethriaid.

Hefyd dros y deng wythnos diwethaf rydym wedi bod yn rhedeg gweithgareddau Pyramid yn yr ysgol. Roedd hyn yn gyfle arbennig o dda i'r plant gael bod gyda'i gilydd mewn awyrgylch hapus a chynhwysol i wneud nifer o weithgareddau diddorol a chyffrous. Dymuniad y plant oedd galw'r sesiynau yn Clwb Seren y Bêl a hoffem ddiolch o galon i Helen Llywelyn am sicrhau'r nawdd, i Wendy Foulkes am drefnu'r gweithgareddau ac i Gwenno Morris am gynorthwyo.

Gala Nofio

Mae mis Ionawr wastad yn brysur yn y pwll nofio. Mae Cylch Aberystwyth yn cynnal sawl gala nofio yn ystod y mis a gwelwyd llawer o blant Ysgol Tal-y-bont yn cystadlu'n frwd unwaith eto eleni. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu ac yn enwedig i'r canlynol am gyrraedd y gala derfynol:

Glain 5ed cefn merched blwyddyn 6. Elinor 1af cefn merched blwyddyn 5. Oisín 3ydd cefn bechgyn blwyddyn 5. Nia 4ydd rhydd 50m. Ras gyfnewid cymysg bechgyn blwyddyn 5 4ydd, (Oisín, Cai, Ioan, Tomos Jac). Ras gyfnewid cymysg merched blwyddyn 6 6ed, (Libby, Kaitlyn, Elinor, Becca). Ras gyfnewid rhydd merched blwyddyn 6 4ydd, (Glain, Seren, Emily B, Nia).

Presenoldeb

Mae gan bob ysgol darged heriol ar gyfer cynnal lefel uchel o bresenoldeb y dyddiau hyn ac felly mae'n braf cael cydnabod fod nifer o blant yr ysgol wedi cael cyfartaledd o 100% dros y tymor diwethaf. Llongyfarchiadau mawr i Nia Benham, Steffan Dines, Becca Fleming Jenkins, Bleddyn Lewis, Osian Lewis, Tyler Murray, Kelsey Murray, Celsea Southgate, Sean Spollen, Cai Thomas ac Angharad Williams.

Gwersyll yr Urdd, Llangrannog

Ar ddydd Iau y 15fed o Ionawr aeth criw ohonon ni o Flynnydoedd 3 a 4 i Wersyll yr Urdd Llangrannog.

Adeiladu tîm oedd ein gweithgaredd cyntaf. Ein hoff gêm oedd y gêm gyda'r hwlw hŵps. Cawsom gystadlu i weld pwy oedd yn gallu croesi o un mainc i'r llall gan ddefnyddio darnau bach o garped i sefyll arnynt. Doedden ni ddim yn cael cyffwrdd y llawr. (Y merched enillodd wrth gwrs!)

Yr ail weithgaredd oedd marchogaeth. Enw ein ceffyl ni oedd Tedi. Roedden ni'n hoffi pan oedd Tedi yn mynd yn araf. Pan welodd Tedi ei ffrind Oscar dechreuodd fynd yn gyflym - doedden ni ddim yn hoffi hynna. Roedden ni mewn grwpiau o 4 ac yn cymryd tro i farchogaeth. Roedd un plentyn ar gefn y ceffyl, roedd dau ar ochr yn tywys y ceffyl ac oedd un yn brwsio ceffyl arall.

Y rhaffau isel oedd nesaf. Roedd rhaid i ni gyd-weithio i geisio cwblhau'r cwrs rhaffau heb gyffwrdd y llawr. Doedd hynny ddim yn hawdd - yn enwedig yn y gwynt a'r glaw. Y dasg olaf oedd ceisio neidio ar raff mawr a siglo dros bwll dŵr. Cwmpodd Sean a Tomos i fewn i'r dŵr. Cawsom ni gyd fynd ar y beiciau modur pedair olwyn wedyn a pasiodd pawb y prawf gyrru.

Ar ôl te, aethon ni i'r neuadd i ddysgu Dawns Mistar Urdd. Yna cawsom ni gystadlu arall rhwng y bechgyn a'r merched. Y merched enillodd eto ac felly roedden nhw'n cael mynd i'r siop gyntaf.

Wedi i ni gael cŵn poeth a sglodion blasus i swper aethon ni i chwarae gemau potes ac yna bingo. Cyn mynd i'r gwely cawsom ddewis mynd i'r disgo neu wyllo DVD. Aethon ni i gyd i'r disgo i ddechrau ac yna i wyllo Despicable Me.

Ein gweithgaredd cyntaf fore Gwener oedd dringo. Cyn mynd mewn i'r ystafell wal ddringo roedd yn rhaid i ni wisgo harnais a helmed. Roedd y wal yn uchel iawn ond yn hwyl hefyd. Roedd un plentyn yn dringo lan y wal tra'r oedd dau yn tynnu a'r oedd y tri plentyn arall yn helpu y plentyn oedd yn dringo.

Ar ôl y wal ddringo roedd hi'n amser i ni wneud ein gweithgaredd olaf - mynd ar y trampolins. Roedd yn rhaid i pawb drïo gwneud "back flip". Gwnaeth bawb "back flip" a gwnaeth Sean 5 yn syth ar ôl ei gilydd! Ein hoff beth ni oedd y trampolins.

Diolch yn fawr iawn Llangrannog!
Catrin, Miriam a Sean

Ymweliad â Fferm Cerrig Caranau

Ysgol Tal-y-bont
Tal-y-bont
Aberystwyth
Ceredigion
SY24 5HE

Ionawr 26ain

Annwyl Geraint,

Diolch yn fawr iawn am gael dod i weld Cerrig Caranau.

Roeddwn i'n hoffi'r llo bach. Roedden nhw yn ciwt. Roedden nhw'n flewog.

Fe wnes i ddysgu am y peiriant godro. Fe wnes i ddysgu bod y ffarmwr yn godro am 6 o'r gloch y bore a 6 o'r gloch y nos.

Diolch am y diod. Roedd yr ysytlaeth yn ffres a blasus. Gobeithio gawn ni ddod eto rhywbryd.

Hwyl am y tro,

oddi wrth

Tomos Jac

Panto

Llongyfarchiadau mawr i Heledd, Glain, Eli a Miriam am gael eu dewis i'r panto blynyddol yng Nghanolfan y Celfyddydau eleni ac am eu perfformiadau graenus.

Ymweliad Dosbarth Cyfnod Sylfaen Ysgol Tal-y-bont â'r Anifeilfa yn Borth

Ar fore oer ym mis Ionawr aeth y dosbarth Cyfnod Sylfaen gydag Ysgol Llangynfelyn i'r Anifeilfa yn Borth. Fel rhan o'n thema 'Sŵ Bach' roeddem wedi bod yn edrych mlaen yn arw at gael gweld pob math o anifeiliaid o'r dof i'r dychrynlyd! Cawsom weld y llewpart yn cael ei ginio a chael cyffwrdd a gafael mewn nadroedd anferthol ac, wrth gwrs, roedd digon o amser i chwarae yn y parc ar ddiwedd dydd. Cawsom ddiwrnod gwerth chweil!

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Nodwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Rhian

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Thellio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235



Eglwys Sant Mihangel Eglwys-Fach

Cynhaliwyd te ffarwel i'r Parch. Cecilia Charles ar 8 Ionawr. Bydd y Canon Stuart Bell a'r Parch. David Williams yng ngofal y gwasanaethau o hyn at y Pasg. Bydd pob gwasanaeth yn dechrau am 9.30 o'r gloch heblaw am y Gwasanaeth Gŵyl Ddewi, 1 Mawrth a Gwasanaeth Sul y Mamau, 15 Mawrth fydd yn cychwyn am 3.30 o'r gloch.

Cawsom noson ddi-ddorol a defnyddiol yng nghwmni Cyril Baker, gemydd o Dal-y-bont yn ddiweddar a fu'n trafod sut i osod gwerth ar emwaith ar gyfer yswiriant, profiant ac ar gyfer ail-werthu.

Y LLEW GWYN TAL-Y-BONT

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £7.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gwrs £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
whitelionhotel1@btconnect.com

loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.

Pris £5.00

Cysylltwch a

Sue Jones-Davies

01970 624658

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLETH
Powys SY20 8JG Cymru

Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

STORFA CANOLBARTH CYMRU



Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr - Wedi ei wresogi



Bocsau a 'bubblewrap' ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffôn: 01654 703592

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Ddŵl, Machynlleth, SY20 6DQ

INVESTORS | BUDDSODDWR
IN PEOPLE | MEWN POBL

Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont

Dechreuwyd gweithgareddau 2015 gyda noson o Fingo yn y Neuadd Goffa ar 13 Ionawr. Er y tywydd oer daeth criw da o aelodau, cyn aelodau a chyfeillion at ei gilydd i chwarae. Bu bron rhaid gohirio'r cyfan pan ffoniodd y Galwyr Bingo yn hwyr y prynhawn i ddweud na fyddai modd iddyn nhw deithio i Dal-y-bont oherwydd y tywydd. Ond, daeth swyddogion y Clwb i'r adwy gydag Alaw Aur a Gareth yn cymryd at y gwaith o chwilio peiriant Bingo a galw'r rhifau. Gwnaeth y ddau waith proffesiynol iawn a chafwyd noson hwyllog dros ben!

Daeth criw da ynghyd i'r cinio blynyddol eleni ar nos Sadwrn, 24 Ionawr yng Ngwesty'r Marine. Cafwyd bwyd blasus ac areithiau diddorol a difyr gan ein Llywydd, Cefin Evans, Rhiwarthen, Capel Bangor a'r Gŵr Gwadd Tegid Jones, Fferm Glanmerin, Glaspwll.

Mae'r aelodau yn brysur iawn ar hyn o bryd yn paratoi i gystadlu yng nghystadlaethau Panto'r Sir gyda'r panto 'Cantr'r Gwaelod'. Dymunwn pob lwc i'r aelodau gyda'r perfformiad yn Theatr Felinfach ar nos Wener, 20 Chwefror a bydd modd gweld y Panto yn y Neuadd Goffa ar nos Fawrth, 3 Mawrth.

CFff Tal-y-bont a'r Cylch

Noson Panto

ar
NOS FAWRTH, 3 Mawrth
Neuadd Goffa Tal-y-bont

CROESO I BAWB

SEFYDLIAD Y GALON

Cynhelir cyfarfod yn
SIOP CYNFELYN,
TRE'R-DDÔL

ar
NOS FAWRTH,
24 CHWEFROR
am 7.15 p.m.

i hyfforddi'r cyhoedd ar sut i
adfywio'r galon (CPR)

CROESO I BAWB

GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

JEAN JAMES
Ffôn: 01970 612459

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL



argraffu da
am bris da



Y Lolfa

holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com



Valma Jones, Cadeirydd cyntaf y gangen yn torri'r gacen gyda Meryl Davies Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr. Gwelir aelodau a chyn aelodau o'u cumpas.

Cangen Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Dathlu'r Deugain

Ar noson drybeilig o oer ym mis Ionawr daeth criw da iawn ohonon at ein gilydd i ddathlu a chofio nôl deugain mlynedd ers cychwyn y gangen. Roedd cyfarfod wedi ei gynnal yn Rhagfyr 1974 i sefydlu cangen ag ethol swyddogion. Cafwyd y cyfarfod cyntaf yn Ionawr 1975. Roedd yn wych gweld rhyw wyth o'r aelodau cyntaf yna gyda ni.

Roedd y croeso'n gynnes gan Westy'r Marine yn Aberystwyth i'r dathliad, y bwyd yn dda a'r cwmni'n siaradus. Cawsom araith bwrpasol a difyr gan ein Llywydd Cenedlaethol, Meryl Davies o Ddinas, ym Mhen Llyn. Er mai gog ydy Meryl cafodd ei mam ei magu ym Mhenparcau a chawsom hanes difyr ganddi o'i gwyliau haf yn yr ardal.

Fe gafodd pawb gyfle i edrych ar luniau o'n hanes, y teithiau cerdded, y codi arian, y partion canu, y cystadlu a'r cymeryd rhan. Popeth sy'n rhan o gymuned glos.

Roedd Carys Briddon Tre'r Ddol wedi ysgrifennu penillion pwrpasol ar gyfer y dathliad, cawsom ddarllenid ganddi hi, a buom yn canu, dan arweiniad Fal Jenkins aralleiriad o benillion a ysgrifennwyd gan J R Jones, Werndeg gynt, pan oeddem yn dathlu'r 25ain pen-blwydd.

Noson bleserus i bawb felly ac ymlaen yn frwd a heriol at ddyfodol cryf i'n iaith a'n cymuned.

Medi James

Merched y Wawr Tal-y-Bont a'r Cylch Dathlu'r Deugain

Ers deugain mlynedd bellach
Fe gafwyd cryn fwynhad
Wrth gynnal cyfarfodydd
Drwy gyfrwng iaith ein gwlad.

Ein gwlad a'n hiaith a garwn
A'r Merched yn eu tro
Sy'n cadw'r gwerthoedd hynny
I ffynnu yn y fro.

Wrth ddathlu ac wrth ganmol
Ein llwyddiant a'n parhad
Pob aelod sydd yn weithgar
Yn gwarchod ein trefnad.

Ymlaen yr awn yn ffyddiog
A'n calon yn y gwaith
O gadw'n fyw ddiwylliant
Ein gwlad, ein bro, a'n hiaith.

Carys Briddon

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd, mae'n dda cael newyddion da ar drafnidiaeth gyhoeddus yng Ngheredigion. Fis Medi llynedd, ar ôl diwedd rownd o gymorthdal Ewropeaidd, daeth gwasanaeth bws y Cardi Bach, oedd yn gwasanaethu yr arfordir rhwng Cei Newydd ac Aberteifi, i ben. Roedd hyn yn ergyd i nifer o bentrefi'r cylch, lle nad oes llawer o ddewis arall o drafnidiaeth, ac i gerddwyr ac ymwelwyr – a'r busnesau sy'n ddiwyddol arnynt.



Gwnaeth grŵp ymgyrchu lleol waith diwyd iawn wrth godi proffil y pwnc yma, ac mi godais i'r mater gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth. Yn fuan ar ôl gwyliau'r Calan, daeth y newyddion da fod Llywodraeth Cymru am roi cymorthdal i adfer y Cardi Bach.

Mae manylion i'w datrys, ond dyma newyddion calonogol i'r ardal, ac i'r diwydiant twristiaeth sydd mor ddiwyddol ar lwybr yr arfordir a'r cyfleon cerdded sy'n deillio ohoni. Mae'r penderfyniad yma, yn ogystal â'r buddsoddiad diweddar yn y gwasanaethau T1 a T5, a'r penderfyniad i gefnogi'r gwasanaeth Bwcabus tra fod ceisiadau newydd am gyllid yn cael eu ystyried, yn fuddsoddiad gwerth-chweil mewn trafnidiaeth mewn cyfnod o gynni ariannol a thoriadau. Mae angen gwella rhai elfennau o hyd, wrth gwrs, fel y diffyg gwasanaeth T5 ar y Sul, ond at ei gilydd mae'r sefyllfa o ran bysiau yn well yng Ngheredigion nag mewn nifer o ardaloedd.

Rwy'n parhau hefyd i gefnogi'r ymgyrch TrawsLink i adfer cysylltiadau trên rhwng Aberystwyth, Tregaron, Llambled a Chaerfyrddin. Da oedd gweld gymaint o bobl yn y cyfarfod cyhoeddus diweddar, ac edrychaf ymlaen at drafodaethau gyda'r Gweinidog Trafnidiaeth a Network Rail i weld sut i wrthio'r cynllun yma ymlaen.

Cam gwag, fodd bynnag, yw cyhoeddiad diweddar San Steffan y bydd pob trwydded yrru yn gorfod cario baner jac yr undeb o hyn ymlaen. Gofynnais i'r Prif Weinidog am safbwynt Llywodraeth Cymru, ac mi gytunodd gyda mi y byddai'n well petai pawb yn cael y dewis o ba faner sy'n ymddangos. Y Ddraig Goch fyddwn i'n ei ddewis bob tro!

Bistro
Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Garej Davmor

- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont
01970 832278 **www.davmorgarage.co.uk**

Teyrnged

Y diweddar Mr Ceredig Lloyd (1941-2015)

Trist yw cofnodi marwolaeth annisgwyl

Mr Ceredig Lloyd, Yr Hen Siop, Bont-goch yn 73 oed. Ganwyd Ceredig ar 11 Rhagfyr 1941 yn unig fab i'r diweddar Barchg William Lloyd, offeiriad plwyf Moccas yn Swydd Henffordd, a'i briod Judith. Roedd gwreiddiau ei dad yn yr ardal hon a chafodd ei eni yn Nhŷgwyn, Bont-goch yn 1911. Graddiodd Ceredig gyda BA yn y clasuron yng Ngholeg Balliol, Rhydychen yn 1965, gan ddilyn cwrs pellach yng Ngholeg Llyfrgellwyr Cymru, Llanbadarn Fawr, yn 1965-66. Bu'n athro am gyfnod yn Ysgol Breswyl Abermad. Roedd yn ŵr annwyl a phreifat iawn, a byddwn yn gweld ei eisiau yn fawr iawn yn y pentref. Roedd yn aelod o Eglwys St. Pedr, Elerch, ac yno y cynhaliwyd ei angladd ar ddydd Gwener, 16 Ionawr dan ofal ei ficer Y Parchg Andrew Loat.



Ceredig yn ffyriwr trwy ganiatâd Coleg Balliol, Prifysgol Rhydychen.

Gwefr 'Y Gwyll'

Profwyd cynnwrf arbennig y byd teledu yn ystod yr wythnosau diwethaf gyda dyfodiad criw ffilmio'r gyfres dditectif Y Gwyll/Hinterland i'r pentref a'r ardal gyfagos. Codwyd cwr y llen ar y broses ddifyr o greu a ffilmio rhaglen deledu a'r nifer helaeth o gast a chriw cynhyrchu sydd angen i wneud hynny. Trodd y Neuadd Goffa yn bentref teledu go iawn gan ddefnyddio rhai o'r ystafelloedd i baratoi'r actorion a'r gofod o amgylch yn faes parcio i'r fflid eang o loriau gan gynnwys lori bwysig yr arlwy. Fe ddywedwn ni fod eu cael i'w lle wedi bod yn gamp ymarferol ar ei ben ei hun!

Fel y gwyddom mae'r gofal dros y manylion yn allweddol bwysig wrth sicrhau llwyddiant unrhyw gyfres deledu ac wrth greu awyryglch unigryw. Rhyfeddod i lawer o drigolion yr ardal oedd gweld hynny ar waith wrth i'r criw teledu adeiladu garej pwrpasol ar lecyn o dir gwag wrth ymyl gwaith Bwlchglas.

Mae'n debyg y bydd rhaid i nifer ohonom neilltuo'r amser maes o law i wyllo'r gyfres newydd fwy nag unwaith. Tasg rhy anodd o lawer fydd llwyddo i ddilyn datblygiadau'r stori a'r plot a mwynhau ar yr un pryd y gêm deuluol o adnabod lleoliadau a wynebau cyfarwydd yr ardal ar y sgrin fach. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at weld ffrwyth y llafur ar y sgrin a chael y cyfle i ryfeddu at yr harddwch naturiol sydd o'n cwmplas, ond nad ydym o reidrydd yn sylwi arno wrth frysio o un lle i'r llall bob dydd. Byddwn yn sicr yn ymfalchio wrth i'r ardal gael sylw cynulleidfaoedd ar draws y byd.



**Yma i'ch helpu chi
Gwasanaeth
prawfddarllen**

Lwfans o hyd at 1000 o eiriau,
am ddim i fusnesau ac
elusennau bach a chanolig

0845 6033 221

hybu@comisiynyddygyymraeg.org

Ysgol Llangynfelyn

Gala Nofio

Llongyfarchiadau mawr i'r plant a fu'n nofio yn y ddwy gala nofio. Aeth deg o'r plant ymlaen i'r gala derfynol yn erbyn holl ysgolion cynradd ardal Aberystwyth.

Parti Mathemateg a Ditectif Maths

Daeth Mr Geoff Davies o Techniquest i'r ysgol i gymryd dau weithdy Mathemateg. Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau eu hunain yn paratoi parti ar gyfer Arth Fach drwy ddefnyddio eu sgiliau Rhifedd. Bu Dosbarth Cyfnod Allweddol 2 yn Dditectifs Mathemateg yn darganfod atebion i gliwiau Rhifedd i ddatrys y dirgelwch.

Ymweliad â'r Anifeilfa

Fel rhan o'u thema 'Sŵ Bach', aeth Dosbarth Mrs Nelmes i'r Anifeilfa yn y Borth. Mwynhaodd y plant weld yr holl anifeiliaid a dysgu amdanynt. Uchafbwynt y diwrnod oedd dal a chyffwrdd yn y nadroedd! Mae'r plant yn barod wedi bod yn gweithio'n galed ar y thema ac maent wedi penderfynu mabwysiadu llewpart yr eira gan eu bod yn anifail prin iawn.

Pêl-rwyd yr Urdd

Bu tîm pêl-rwyd yr ysgol yn cystadlu yn erbyn ysgolion cynradd ardal Aberystwyth yng nghystadluaueth yr Urdd. Chwaraeodd y tîm yn arbennig o dda yn erbyn ysgolion llawer mwy. Llwyddodd Ben, Seamus ac Elijah i sgorio pwyntiau i'r tîm. Da iawn chi!

Darlith 'Gwyddoniaeth ac Egni'

Aeth Dosbarth Miss Jones i adran Wyddoniaeth y Brifysgol yn Aberystwyth i gymryd rhan mewn darlith am egni. Cafodd y plant amser diddorol iawn yn gwrandao ar y gwyddonwyr ac yn cymryd rhan mewn arbrofion cyffrous iawn. Efallai welwn ni wyddonwyr enwog yn dod o Ysgol Llangynfelyn yn y dyfodol!

Taith i'r Blaned Mawrth

Daeth Mr Geoff Davies, Techniquest, nôl i'r ysgol i gynnal gweithdy 'Taith i'r Blaned Mawrth' i Ddosbarth Miss Jones. Roedd yn rhaid i'r plant gynllunio a gwneud blwch i gadw offer pwysig yn ddiogel wrth iddo lanio ar y blaned Mawrth. Mwynhaodd y plant arbrofi gyda'u modelau a darganfod pa fodel oedd y gorau am gadw'r offer yn ddiogel. Y model 'Raff' oedd yr enillydd.

Arddangosfa Celf

Bydd casgliad o waith celf plant yr ysgol yn cael eu harddangos yn y 'Cwtsh' yn Siop Cynfelyn o'r 7fed i'r 27ain o Chwefror. Dewch draw i weld y gwaith!

Gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi

Bydd Gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol ar fore Dydd Gwener Chwefror 27ain am 9.15yb. Mae croeso cynnes i bawb. Bydd paned a chacen yn dilyn y gwasanaeth.

Tre'r-Ddôl ar y Teledu

Bydd modd gweld ychydig o hanes pentref Tre'r-ddôl ar S4C ym mis Mawrth pan ddarlledir rhaglen yn y gyfres *Caeau Cymru*. Ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan fydd Rowland Davies, Dolcletwr, a fydd yn adrodd hanes rhai o gaeau'r fferm, a Gwyn Jenkins, Tal-y-bont, a fydd yn sôn am y fasnach hetiau ffel a oedd yn ffynnu yn yr ardal ddwy ganrif yn ôl. Darlledir y rhaglen am 8.25 nos Lun 9 Mawrth.

Ysgol Llangynfelyn



Ymweliad â'r Anifeilfa



Ymweliad â'r Anifeilfa



Parti Mathemateg



Pêl-rwyd yr Urdd



Parti Mathemateg a Ditectif Maths



Jenny Fothergill (dde) a Paul Morgan yn canu'r ddeuawd enwog gan Joseph Parry o'r opera adnabyddus *Blodwen*.

Yr Opera yn Nhal-y-bont

Cyrhaeddodd yr ymgyrch i brynu tri pheiriant adfywio'r galon (diffibrilwyr) i Dal-y-bont yr uchelfannau cerddorol ar nos Wener y 30ain o Ionawr wrth i Aber Opera gynnal noson yn y Neuadd Goffa o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cerddorol, Alistair Auld.

Trefnwyd y noson gan Grŵp Llifogydd Cymunedol Tal-y-bont ac ymysg sêr y noson yr oedd un o'r aelodau, Jenny Fothergill.

Cafwyd perfformiadau grymus o ddarnau cyfarwydd gan rai o gyfansoddwyr mawr y byd Opera; Donizetti, Mozart, Puccini, Offenbach, Rossini a'r Cymro o Ferthyr, Joseph Parry, a fu'n Athro Cerdd yn y Brifysgol yn Aberystwyth am gyfnod.

Yn ogystal â'r opera cafwyd perfformiadau o'r radd flaenaf gan ddau gerddor ifanc o'r ardal a swynodd y gynulleidfa. Demelza, darn gan Hugh Nash i'r cornet oedd dewis Gwern Penri o Landre, a threfniant John Thomas o Bugeilio'r Gwenith Gwyn oedd dewis Esther Llwyd Ifan o Dal-y-bont ar y delyn.

Aelodau Aber Opera oedd Jenny Fothergill, Sarah Taylor, Briony-Molly Basterfield, Tiffany Evans, Rachel Colley, Deborah MacIntyre, Joanne Julier, Paul Morgan, Paul Keyworth, Huw Evans, James Kennedy, John Tudno Williams, a'r Repetiteur of Derek Fallding.

Roedd y noson yn lwyddiant ysgubol a llwyddwyd i godi dros £350 tuag at yr ymgyrch.



(Chwith i'r dde) Nick a Karin Hughes (Yr Hen Bopty) yn cyflwyno blodau i Jenny a Mick Fothergill ar ddiwedd y noson.



Aelodau o Aber Opera ac un o unawdwyry y noson, Esther Llwyd Ifan (canol blaen).

Cyrraedd y nod

Braf yw cael nodi bod y gronfa bellach wedi cyrraedd dros £1,700, diolch i haelioni pobl ardal Tal-y-bont.

Daeth y cyfraniad diweddaraf yn sgil noson hynod lwyddiannus yng Nghapel Bethel ar nos Fercher y 4ydd o Chwefror pan ddangoswyd cyfweiliad gyda'r diweddar Bennet Jenkins o Cerrig Caranau a oedd wedi ei recordio gan Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail. Cododd y noson gyfanswm o £507 tuag at yr ymgyrch.

Yn sgil y fath lwyddiant, mae Grŵp Llifogydd Tal-y-bont yn awr yn gobeithio bwrw ymlaen gyda'r gwaith o drefnu'r tri pheiriant a'u cyflwyno i'r gymuned yn y dyfodol agos. Ein gobaith yw medru adrodd am y camau nesaf yn fuan iawn yn nhudalennau Papur Pawb.

Arthur Dafis, Cadeirydd Grŵp Llifogydd Cymunedol Tal-y-bont

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ionawr.

Tyllau yn y Ffordd

Adroddodd y Clerc iddi gysylltu gyda'r Cyngor Sir i gael diweddariad ar y sawl achos agored o dyllau dros ffyrdd amrywiol Ceulanamaesmawr. Nodwyd fod y tyllau rhwng y Llew Du a Brynhyfryd wedi'u llenwi, ond nid oedd diweddariad ar waith ffordd Cwm Ceulan; y ffordd rhwng Yr Hen Gapel Ceulan a Rhyd yr Onen; nac ychwaith ar y groesffordd ger Llety Ifan Hen, Bont-goch. Yn ogystal, derbyniwyd llythyr gan etholwyr y plwyf ynglŷn â chyflwr y ffordd rhwng Pontbren-Geifr a gwaith Bwlch Glas. Cytunwyd i ddanfon llythyr ar eu rhan i'r Cyngor Sir.

Biniau Halen

Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater. Nododd y Cyngorydd Enoc Jenkins eu bod nhw wedi gosod bin halen newydd ger Cwm-slaidd. Serch hyn, nid yw bin halen Glanrafon wedi'i drwsio a chytunwyd i'r Clerc godi'r mater gyda'r Cyngor Sir.

Goleuadau Nadolig

Estynnodd y Cyngorwyr air o ddiolch i Ysgol Tal-y-bont, Falyri Jenkins a Ieuan Morgan am eu cyfraniad at y seremoni goleuo. Estynnodd y Cadeirydd, Bledwyn Huws, air o ddiolch i bawb a fu'n helpu gyda'r trefniadau, ac yn arbennig i'r Cyngorydd Glenys Edwards am drefnu'r lluniaueth.

Baw Cŵn

Nododd y Cyngorydd Glenys Edwards bod sefyllfa baw cŵn o amgylch y lôn gefn ger Cartrefle, y Cae Bach a Tanycoed wedi gwaethygu. Cytunwyd i'r Clerc godi'r mater gyda'r warden cŵn a gofyn am arwyddion.

Cymhorthdaliadau 2014/15

Derbyniwyd argymhellion yr Is-bwyllgor Ariannol i ddsbarthu cyfanswm o £3,250 mewn grantiau rhwng y cymdeithasau a'r clybiau lleol canlynol: Y Neuadd Goffa; Cylch Meithrin; Cymdeithas Maes Chwarae'r Olyn Galch; Cymdeithas Papur Pawb; Clwb Pêl-droed; Clwb Pysgota; Sefydliad y Merched; Clwb Pêl-droed Ieuencid; Clwb Ffermwyr Ieuaic; a Ffrindiau Cartref Tregerddan. Cytunwyd i rannu £150 rhwng dwy elusen/cymdeithas yng Ngheredigion, sef Cyngor ar Bopeth Ceredigion ac Age Ceredigion. Yn ogystal, rhannwyd £170 rhwng 5 elusen genedlaethol.

Derbyniwyd cerdyn diolch oddi wrth blant Clwb ar ôl Ysgol, Ysgol Gynradd Tal-y-bont, ar ôl i'r Cyngor gynnig cymhorthdal ar frys iddynt ym mis Tachwedd. Estynnodd y Cyngor ddiolch i'r plant am eu cerdyn hardd.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda – Sgwrs Iach

Derbyniwyd gwybodaeth am y digwyddiad cyhoeddus uchod fydd yn darparu gwybodaeth ac yn gyfle i drafod syniadau ar sut y gellir gwella gwasanaethau. Bydd cyfarfod ardal Aberystwyth yng Nghanolfan y Morlan ar 23 Chwefror rhwng 3 a 5 y prynhawn.

Teyrngedau

Richard John Anthony Middleton - 'Jackie' 1931-2015

Ar ôl imi wasanaethu yn angladdau cyfoedion hoff gan gynnwys ei gefnder Emrys Humphreys, byddai Jackie yn dweud, 'Bil, rwyf am iti ofalu am fy angladd pan ddaw'r diwedd am ein bod ni'n dau yn fois Taliesin'. Yr un oedd ei ddymuniad y tro olaf y buom yn hel atgofion am ein plentyndod, ac yr oedd ei anwyliaid yn gwybod hynny. Roedd y gynulleidfa fawr ddaeth i'r gwasanaeth yn yr Amlogsgfa yn deyrnged hardd i boblogrwydd Jackie ymhlith cylch eang o gyfeillion. Un felly oedd mab Annie a Tom Middleton, a brawd Cynfelyn, pan oeddem yn ifanc a gan ei fod yn hŷn na ni ac yn dal edrychem arno fel brawd mawr.

Gan fod ei dad-cu a'i fam-gu Edward a Jane Humphreys yn rhan o gymdogaeth ddâr Stryd Isa (gwell enw na New Terrace a'n Terrace Row ni), lle trigem ninnau, gwelwn Jackie yn ddyddiol a gwelwn Emrys pan ddeuai ar wyliau o'r Borth. Roedd criw da ohonom yn crwydro'r figyn, dringo i ben y Graig Fawr, mynychu'r ysgol, yr ysgolion Sul a'r 'Band of Hope' ac yn chwarae pêl-droed. Rwy'n cofio Jackie wrth glywed Harri yn sylwebu ar gêm ddychmygol ar ben hen domen y Romans, yn dweud wrtho 'Rwy'ti fel Raymond Glendenning!'

Roedd tîm da gan Daliesin yn y 40au/50au ac yn y llun o dîm 1960-61 gwelir Jackie fel rheolwr a Bill Kingshot fel hyfforddwr. Dyma'r chwaraewyr – Richie Jenkins, Ken Jones, Robert Rowlands, Eric, Ron a Jimmy Roberts, Gordon Edwards, Wil Jenkins, Dai Owen Evans, Gareth Williams a Gwyn Evans. Bu Jackie yn hael ei gefnogaeth i dimau'r pentrefi, megis Borth a Bow-Street, lle bu'i wryon yn chwarae, ac i dîm Aberystwyth. Bu'r un mor deyrngar i Glwb Golff Borth ac Ynys-las am hanner canrif, ac i glybiau bowlio'r dre. Gweithred hyfryd o barch ac edmygedd oedd y funud o dawelwch yn y gemau ar ôl ei farw sydyn.

Byddwn yn dweud wrth Jackie mai'r peth gorau ddigwyddodd iddo oedd cael Mary yn wraig am drigain mlynedd a chytunai â mi wrth iddo'i chanmol hi a'i feibion Keith a Brian a'u teuluoedd. Wedi priodi a byw mewn tai a gododd yn Nhaliesin prynodd Jackie dŷ braf Glan Dylan, Ynys-las am £2,500, a gwerthu'r dodrefn am £2,200! Mary wedyn yn cadw ymwelwyr a Jackie yn gwerthu hufen ia a pharhau yn y caban ar brom y de wedi iddyn nhw ymagartrefu yn y dref.

Wedi prentisiaeth peintiwr gyda chwmni E S Clements, sefydlodd Jackie ei fusnes ei hun, cario'r brwshis a'r tuniau ar ei feic a chael Tomi Pugh i gario'r ysgolion yn ei lori. Am ei fod yn grefftwr da tyfodd y busnes, ymunodd Keith ag ef ac erbyn hyn mae Darren yr wŷr yn parhau'r traddodiad. Er iddo'n gadael mae ôl llaw y crefftwr i'w weld o hyd. Wrth ddiolch am gyfeillgarwch hir Jackie anfonwn ein cofion at Mary, Keith, Brian a'u teuluoedd.

W.J. Edwards

Raymond Andrews

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth sydyn Raymond Andrews, gynt o 1 Tanyfoel, Eglwysfach. Ganwyd a magwyd Raymond yn y pentref ac wedi gadael yr ysgol aeth i weithio fel dyn signal ar y rheilffordd. Bu Raymond yn byw yn y pentref am 68 mlynedd cyn symud i Gaersws yn mis Mai 2014. Roedd ganddo bob amser storïau a hanesion difyr am y pentref a'r ardal gyfagos. Cynhaliwyd gwasanaeth angladd Raymond yn Eglwys Sant Mihangel ar 31 Ionawr. Cydymdeimlwn gyda'i deulu.

Celia Groves

Trist oedd clywed am farwolaeth Celia Groves, Bancyllan, Eglwysfach, ddydd Iau 22 Ionawr yn Uned Twymyn, Ysbyty Machynlleth, mis yn unig wedi iddi gollu ei gŵr Don.

Roedd Celia yn 66 oed ac wedi byw yn Eglwysfach gyda'i gŵr am ddeg mlynedd ar hugain, gan redeg siop y pentref am gyfnod ac yna gweithio yn Ysbyty Bronglais. Roedd yn mwynhau cerdded ei chi ar hyd y Foel, ac roedd ganddi ddiddordeb mawr mewn garddio a phlanhigion. Bu'n aelod gweithgar a ffyddlon o Sefydliad y Merched gan fod yn drysorydd am flynyddoedd lawer. Mi fydd yn chwith iawn heb gwmniaeth Celia yn yr ardal.

BWYD DA . . .
CWMNI DA . . .

yBlac
TALYBONT

BWYTY A BAR

Cinio 12.00-2.30 Swper Nos 6.00-9.00 Cinio Sul 12.00-3.00

Partion | Digwyddiadau | Llogi ystafell | Pen-blwydd
Dathlu | Priodasau | Parti Bedydd | Te angladd

Byddwn ar gau rhwng 26 Ionawr - 11 Chwefror
Croeso i chi e-bostio neu adael neges ar y
ffôn ac fe wnawn ni gysylltu â chi

Gwelwn chi'n fuan. . . Cofion SiBn, Catrin a'r tîm

01970 832 555 croeso@gwestyllewdu.com

Pleidlais ym Methel

Bydd aelodau Capel Bethel Tal-y-bont yn cynnal pleidlais yn fuan er mwyn gweld a ydynt o blaid cynnal priodasau un rhyw yn y capel, ar ôl i hynny ddod yn gyfreithlon drwy ddeddf gwlad. Bydd yr holl aelodau yn cael cyfle i fwrw pleidlais agored mewn oedfa foreol ar ddyddiad i'w bennu. Disgwylir y bydd hynny'n digwydd cyn canol mis Mawrth.

Bydd llythyr yn cael ei anfon at yr aelodau gan Undeb yr Annibynwyr yn nodi beth yw'r cefndir ar dadleuon, ond aelodau'r eglwys ym Methel fydd â'r gair olaf.

Cymdeithas Hanes Llangynfelyn

Death nifer fawr o'r trigolion ynghyd ar y nos Fawrth olaf yn Ionawr i wrando ar un o aelodau'r Gymdeithas. Rowland Davies oedd y gŵr gwadd ac yn ystod y noson cafwyd ychydig o hanes ei gartref – Dolclettwr. Mae'n debyg bod tŷ ar y safle ers y drydedd ganrif ar ddeg er bod newidiadau mawr wedi bod i'r adeilad ers hynny. Daeth cyn-deidiau y teulu i Dolclettwr yn 1893 ac erbyn heddiw mae Rowland, Bethan ac Iolo wedi ymgartrefu yno.

Mae yna nifer o nodweddion pensaernïol hanesyddol yn y tŷ – rhai sydd wedi dod i'r golwg ar ôl y tân a ddifrododd ddau lawr uchaf y tŷ yn 1996. Yn ogystal a hanes y tŷ cafwyd trafodaeth ddiddorol ar yr agweddau o ffermio a'r enwau diddorol sydd i rai o'r caeau.

Bydd rhagor o hanes Dolclettwr a'r ardal i'w weld ar y rhaglen deledu 'Caeau Cymru', S4C, ar y 9 Fawrth am 8.25pm.

Ymlaen Ceredigion yn Eglwys-fach

Dangoswyd y ffilm *Forecast 2* yn Eglwys-fach yn ddiweddar. Mae'r ffilm yn holi'r cwestiwn: A yw y llifogydd a'r stormydd diweddar yn ddiwyddiadau unigryw neu yn bartwm newydd o dywydd? Dangosir y dinistr a chyfweliadau gyda phobl yn dilyn y llifogydd yn Nhal-y-bont yn 2012, a'r stormydd a darodd Aberystwyth llynedd. Creuwyd y ffilm gan Sarah Woods o Fachynlleth a threfnwyd y digwyddiad gan Ymlaen Ceredigion sydd yn rhan o ymchwil gan Brifysgol Aberystwyth. Mae'n galluogi pobl i drafod eu profiadau o'r tywydd, eu gofidiau a'u hymatebion. Mae cymuned Eglwys-fach, Ffwrnais a Glandyfi fel llawer o ardaloedd a phentrefi'r ardal yn paratoi Cynllun Argyfwng Lleol ar hyn o bryd. Fel rhan o'r noson yr oedd Ymlaen Ceredigion yno i gynniig cymorth i bobl ynglyn â phroblemau yn ymwneud ag ynni.

Ymddiriedolaeth Sir Drefaldwyn-Gwarchodfa Cors Ddyfi

Bydd y warchodfa yn ail-agor ar gyfer y tymor newydd ar 1 Mawrth. Mae'r warchodfa yn cynnal Project Hanes Llafar ac yn holi am wirfoddolwyr i helpu drwy gyfnewid â phobl neu i rannu eu hatgofion a hen luniau o'r Dyffryn yng nghyd-destun natur a bywyd gwyllt. Mae rhagor o fanylion ar gael gan Kim Williams: kim@montwt.co.uk / 01654 781414.

Y Gair Olaf



Unwaith eto mae Llywodraeth Lafur Bae Caerdydd wedi taro hoelen arall i mewn i arch ein cymunedau gwledig pan gyhoeddwyd nad oedd cais Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru am grant wedi bod yn llwyddiannus. Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyrrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol oedd yn gyfrifol am wrthod y cais ac mae'r ddwy adran yma yn dod o dan adain Llywodraeth Lafur Caerdydd. Gŵyr pawb am bwysigrwydd y mudiad yma i gymunedau gwledig Cymru ar hyd y blynyddoedd. Mae Mudiad y Ffermwyr Ifanc wedi gwneud mwy na'r un blaid wleidyddol i sicrhau ffyniant a pharhad yr iaith a'r diwylliant Cymreig yng nghefn gwlad Cymru heb sôn am yr holl waith gwirfoddol y maent yn gwneud i godi arian ar gyfer elusennau lleol. Mae yna dros 6,000 o aelodau yn perthyn i'r mudiad ac yn aml iawn dyma'r unig beth sydd gan bobl ifanc cefn gwlad i'w fynychu. Ym mwrlwm y clybiau clywir yr iaith yn cael ei siarad yn hollol naturiol. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i'r aelodau yn amhrisiadwy o ran cynniig profiadau eang ac amrywiol. Beth tybed fydd dyfodol yr iaith os collwn ni'r clybiau ffermwyr ifanc?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon gwario ar warchod bywyd gwyllt ond nid ar y bobl sy'n byw yng nghefn gwlad. Mae'n hollol amlwg fod ganddynt fwy o ddiddordeb yn y mochyn daear a'r barcud nag yn y bobl a'r cymunedau gwledig – rhyfedd o fyd. Gobeithio y byddant yn ail-ystyried y penderfyniad a gwrando ar synnwyr cyffredin.

Ellyw Jenkins

 HUW LEWIS 	Teiars Aliniad Olwyn Ecsôsts Batris Brêcs Hongiad Bar tynnu Gwasanaeth MOT HUWLEWISTYRES.COM	
Glanyrafon		Rhodfa'r Parc
<p>Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan ALIGNMYCAR.CO.UK Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan. ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLETH 01654 700000 LLANBED 01570 422221</p>		

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
 Gwasanaeth a Thrwsio
 Diagnosteg a Weldio
 Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

*Gofynnwch am bampfed
 rhad ac am ddim*

James Memorials
 Vicarage Crossing,
 Llandre, Bow Street
 Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones



Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
 estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
 Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

CHWARAEON



Tal-y-bont Teigars dan 10

Tîm pêl-droed Tal-y-bont Teigars dan 10 yn eu cit newydd a noddwyd gan Chris a Michelle Walton 'The Wildfowler' Tre'r-ddôl. Roedd hi'n ddechrau da i'r tymor a cafwyd hwyl yn nhrnament Gary Pugh. Mae'r tîm yn gwneud yn arbennig o dda yng Nghynghrair Ieuenticid Aberystwyth, chwarae dawnus gan y tîm i gyd. Diolch i'r rheolwr Mark Milverton, Tre'r-ddôl am ei waith caled. Da iawn chi bois a phob lwc i'r tîm yn ystod y tymor.



Eilyddion Clwb Pêl-droed Tal-y-bont

Dyma Eilyddion Clwb Pêl-droed Tal-y-bont sy'n chwarae yn ail adran Cynghrair Cambrian Tyres Aberystwyth a'r Cylch. Tynnwyd y llun cyn y gêm ryfeddol yn erbyn eilyddion Aberdyfi. Roedd Tal-y-bont ar y blaen o bum gôl i ddwy yn gynnar yn yr ail hanner ond fe darodd Aberdyfi yn ôl i ennill y gêm 7-5.



Clwb Nos Wener

Y ddwy actores ffraeth Rhian Morgan a Llio Silyn fu'n diddanu'r gynulleidfa ar nos Wener, 23 Ionawr yn y Llew Gwyn gyda'r sioe 'A gymri di Gymru? Cafwyd perfformiadau hynod ddifyr a'r ddwy yn cyflwyno gwirioneddau mawr trwy gyfrwng barddoniaeth, straeon, cymeriadau lliwgar, cân neu ddwy a sgets.

S4C

DNA  Cymru

8.00

1 Mawrth

Pwy yw'r Cymry? Edrych yn ôl drwy'r canrifoedd er mwyn deall ein gorfennol a'n presennol.

s4c.co.uk

Am ragor o wybodaeth ewch i s4c.co.uk/cymrudnawales

S4C   